



Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

Cynllun Iaith Gymraeg

Paratowyd y cynllun gwirfoddol hwn yn unol â Chanllaw Bwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

Cymeradwywyd y Cynllun Iaith Gymraeg hwn gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar

Anabledd Dysgu Cymru

Ein cenhadaeth yw creu Cymru sydd yn gwerthfawrogi ac sydd yn cynnwys pob plentyn a oedolyn ag anabledd dysgu.

Credwn bod gan bawb

- yr hawl i batrwm bywyd cyffredin yn y gymuned.
- yr hawl i gael eu trin fel unigolion
- yr hawl i gymorth a chefnogaeth ychwanegol i ddatblygu eu potensial i'r eithaf
- yr hawl i gymryd rhan ym mhob proses o wneud penderfyniadau a chynllunio gwasanaeth.

Anabledd Dysgu Cymru
41 Lambourne Crescent
Parc Busnes Caerdydd
Llanisien
Caerdydd
CF14 5GG

📞 029 2068 1160
✉ enquiries@learningdisabilitywales.org.uk
🌐 www.learningdisabilitywales.org.uk

Rhif Elusen Cofrestredig: 1062858

Cynnwys

Cyflwyniad a Datganiad o Fwriad.....	1
1. Delwedd Gyhoeddus.....	3
Hunaniaeth Corfforaethol	3
Arwyddion.....	3
Deunyddiau cyhoeddedig a phrint.....	4
Gwefan	5
2. Cyswllt Uniongyrchol.....	6
Ffôn	6
Gohebiaeth Ysgrifenedig	6
Hyfforddiant, cynadleddau, seminarau a digwyddiadau ymgynghori	7
3. Datblygiad Polisi, Partneriaethau a Phrosiectau	9
4. Rheolaeth a Gweinyddiaeth	10
Hyfforddiant a chefnogaeth Cymraeg.....	10
Technoleg.....	10
Monitro.....	11
Recriwtio.....	11
Cyhoeddi ac Adborth	12
Amserlen Gweithredu 2010 - 2013	13

Cyflwyniad a Datganiad o Fwriad

Mae Anabledd Dysgu Cymru yn cefnogi statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg yng Nghymru ac yn anelu at fod yn gynhwysol yn ein gweithgarwch trwy ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Nod y cynllun hwn yw cefnogi cenhadaeth Anabledd Dysgu Cymru i greu Cymru sydd yn gwerthfawrogi pob plentyn ac oedolyn gydag anabledd dysgi trwy sicrhau cydraddoldeb o ran defnyddio ein gwasanaethau ac annog aelodau a phartneriaid i fabwysiadu'r un ymagwedd.

Mae Anabledd Dysgu Cymru wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cyfartal wrth gyflwyno gwasanaethau yng Nghymru. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut, dros y tair blynedd nesaf, y byddwn yn datblygu a chyflwyno'r gwasanaethau hynny lle mae'n rhesymol ymarferol ac yn briodol o dan yr amgylchiadau.

Credwn bod galluogi pobl i ddefnyddio'u dewis iaith yn chwarae rhan bwysig o ran gwireddu hawliau unigolion. Mae Anabledd Dysgu Cymru yn cydnabod y gall gwadu hawl pobl i ddefnyddio'u dewis iaith eu rhoi dan anfantais. Amlygir y pwysigrwydd o ddarparu gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu yn eu dewis iaith wedi'i amlygu yn yr adroddiad "Cymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd" a ysgrifennwyd ar gyfer Llais Defnyddwyr Cymru.

*"Mae'r anawsterau a wynebwr gan bobl yn y sefyllfa hon yn gallu cael eu dwysau os oes rhaid iddynt gyfathrebu yn eu hail iaith. Mae tystiolaeth anecdotaidd sylweddol bod siaradwyr Cymraeg gydag anableddau dysgu yn ymateb yn well i anogaeth yn eu hiaith gyntaf."*¹

Mae Anabledd Dysgu Cymru wedi ymrwmo i gynhwysiant a chydaddoldeb mynediad i'w holl aelodaeth ac i'w hawl i'w dewis iaith. Mae

¹ "Cymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd", Andrew Missell 2000

hwn yn hawl sylfaenol sydd yn angenrheidiol i rôl Anabledd Cymru fel llais torfol yng Nghymru.

Mae'r cynllun hwn yn cynnwys ymarfer cyfredol yn ogystal â'r gwaith y byddwn yn ei gyflawni yn y dyfodol ac felly dylid ei ddarllen ar y cyd gyda'r Amserlen Gweithredu 2010 - 2013 ar dudalen 13.

Awst 2010

1. Delwedd Gyhoeddus

Hunaniaeth Corfforaethol

- 1.1 Mae gennym logo hunaniaeth corfforaethol sydd yn cynnwys fersiynau Cymraeg a Saesneg o'n henw.
- 1.2 Bydd pob brig llythyrau, dalenni ffacs, slipiau cyfarch, cardiau busnes a ffurflenni safonol allanol eraill yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog.

Arwyddion

Mae'r adran hon yn berthynol i arwyddion gwybodaeth yn swyddfeydd Anabledd Dysgu Cymru ac arwyddion gwybodaeth a osodir gan Anabledd Dysgu Cymru mewn lleoliadau a ddefnyddir ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus, cyrsiau hyfforddi, cynadleddau neu ddigwyddiadau eraill.

- 1.3 Bydd maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd y testun ar arwyddion yn parhau egwyddorion cydraddoldeb fel a nodir yn "Canllaw i Ddylunio Dwyieithog"² (ar gael i'r holl staff).
- 1.4 Lle y defnyddir arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân byddant o fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd cyfartal.
- 1.5 Dylai staff sydd yn defnyddio arwyddion dros dro ddefnyddio "Llinell Gyswilt i'r Gymraeg"³ (mae manylion cyswilt ar gael i'r staff)

² Bwrdd yr iaith Gymraeg 2001

Deunyddiau cyhoeddedig a phrint

Mae'r adran hon yn berthynol i fersiynau copi called ac electroneg o'r canlynol, a gyhoeddwyd ers mabwysiadu'r cynllun hwn.

- Llais a Llais Update
 - Deunyddiau hyrwyddo ar gyfer digwyddiadau hyfforddi a digwyddiadau cyhoeddus
 - Taflenni aelodaeth
 - Adroddiad blynyddol
 - Unrhyw ddogfennau eraill o natur tebyg
- 1.6 Fel mater o ymarfer da, cyhoeddir y deunyddiau uchod yn ddwyieithog, naill ai mewn un dogfen 'troi a throi' fel dewis dymunol neu fel dogfennau Cymraeg a Saesneg ar wahân pan nad yw'n ymarferol nac yn bosibl cyhoeddi fel un dogfen.
- 1.7 Gallwn, gyda thanysgrifiadau Llais / Llais update ofyn am ddewis iaith y tanysgrifwyr a chyflenwi cyhoeddiadau yn eu dewis iaith, Cymraeg neu Saesneg.
- 1.8 Pan fyddwn yn cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân o ddeunyddiau bydd gan bob un neges yn dweud bod y ddogfen ar gael hefyd yn Gymraeg/Saesneg "This document is also available in Welsh" / "Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg".
- 1.9 Pan gyhoeddir fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân cant eu cyhoeddi ar yr un pryf a byddant yr un mor hygyrch.
- 1.10 Bydd amgylchiadau neilltuol pan fo rhaid cyhoeddi dogfen ar frys ac na fydd amserlenni yn caniatáu i ddogfen wedi'i chyfieithu fod ar gael ar yr un pryd. Os felly, hysbysir y rhai sydd i dderbyn y ddogfen y bydd ar gael yn fuan, ac na fydd yn hwyrach nag un wythnos.
- 1.11 Lle mae modd prynu dogfennau byddwn yn sicrhau bod cost y fersiynau Cymraeg a Saesneg yr un fath.
- 1.12 Bydd staff, gwirfoddolwyr ac aelodau'r Bwrdd yn derbyn canllawiau ar gynhyrchu deunyddiau dwyieithog⁴.

⁴ "Canllaw i Ddylunio Dwyieithog", Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009

Gwefan

- 1.13 Byddwn yn gweithredu gwefan cwbl ddwyieithog.
- 1.14 Fel mater o ymarfer da caiff unrhyw addasiadau neu newidiadau i'r wefan eu gweithredu ar yr un pryd yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- 1.15 Lle nad yw'n ymarferol diweddarau ar yr un pryd (h.y. sefyllfa frys pan nad oes cyfieithiad ar gael ar unwaith) bydd y fersiwn Gymraeg neu Saesneg coll ar gael ar y wefan o fewn 5 diwrnod gwaith.

2. Cyswllt Uniongyrchol

Ffôn

- 2.1 Caiff pob galwad ffôn i'r corff ei ateb gyda chyfarchiad dwyieithog .
- 2.2 Bydd atebion ffôn ateb i'n prif swyddfa yn ddwyieithog.
- 2.3 Pan go galwyr yn dymuno parhau gyda'u galwad yn Gymraeg a phan nad yw'r person sydd yn ateb yr alwad yn siarad Cymraeg cant y cyfle i gael eu trosglwyddo i aelod o'r staff neu i wirfoddolwr sydd yn gallu siarad Cymraeg.
- 2.4 Lle nad oes siaradwr Cymraeg ar gael caiff y galwr y dewis o gael galwad yn ôl pan fo siaradwr Cymraeg ar gael, gwneud yr ymholiad mewn ysgrifen neu barhau gyda'r alwad yn Saesneg os yn bosibl.

Ar adeg cymeradwyaeth nid oes siaradwyr Cymraeg rhugl yn gyflogedig gan Anabledd Dysgu Cymru, sydd yn effeithio ar ein gallu i gyflwyno'r gwasanaeth a amlinellir yn 2.3 Gwneir cynnydd parhaus trwy hyfforddiant a recriwtio staff i gyflwyno'r gwasanaeth o fewn blwyddyn i gymeradwyaeth y cynllun hwn.

- 2.5 Bydd staff yn derbyn hyfforddiant a chefnogaeth briodol i ateb y ffôn yn ddwyieithog.

Gohebiaeth Ysgrifenedig

Mae'r adran hon yn berthynol i ohebiaeth ysgrifenedig yn cynnwys llythyrau ac e-byst.

- 2.6 Byddwn yn ateb gohebiaeth yn yr iaith y'i derbyniwyd. Lle mae angen defnyddio gwasanaethau, ymatebir o fewn yr amseroedd ymateb arferol..
- 2.7 Bydd negeseuon e-bost awtomatig allan o oriau swyddfa yn ddwyieithog. Darperir testun safonol wedi'i gyfieithu i staff a byddant yn derbyn cefnogaeth i'w addasu ar gyfer dyddiadau cywir.

Hyfforddiant, cynadleddau, seminarau a digwyddiadau ymgynghori

Mae'n bwysig i ni bod gan ddigwyddiadau a drefnir gan Anabledd Dysgu Cymru ethos ddwyieithog sydd yn grymuso'r mynychwyr i deimlo'n gyfforddus wrth gyfathrebu yn eu dewis iaith.

- 2.8 Byddwn yn gofyn beth yw dewis iaith y mynychwyr a chofnodi ymatebion gan ddefnyddio'r geiriad canlynol
 - A. Nodwch ym mha iaith y byddwch yn cyfrannu at y digwyddiad: Cymraeg/Saesneg
 - B. Nodwch a fyddwch angen offer cyfieithu i ddeall unrhyw gyfraniad yn Gymraeg: Byddaf/Na fyddaf
 - C. Ym mha iaith yr hoffech dderbyn eich pecyn cynadleddwyr? Cymraeg/Saesneg
- 2.9 Pan fo mynychwyr yn nodi'r Gymraeg fel eu dewis iaith gwneir trefniadau cyfieithu ar y pryd priodol, waeth beth fo'r digwyddiad.
- 2.10 Cynhyrchir taflenni adborth digwyddiadau a ffurflenni monitro Cyfleoedd Cyfartal yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- 2.11 Byddwn yn agor ac yn cloi ein cynhadledd flynyddol yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- 2.12 Lle mae'n bosibl ac yn briodol bydd siaradwr Cymraeg yn cadeirio cynadleddau, seminarau a digwyddiadau ymgynghori a gall gynorthwyo gyda chyfieithu os oes angen.
- 2.13 Cynhyrchir dogfennau a gynhyrchir gennym ar gyfer pecynnau cynadleddwyr yn ein cynadleddau, seminarau a digwyddiadau ymgynghori yn newis iaith y mynychwr, fel a nodir ar y ffurflen gofrestru (gweler 2.8)

- 2.14 Byddwn yn annog cyrff eraill sydd yn darparu deunyddiau i'w cynnwys mewn pecynnau cynadleddwyr i ddarparu deunyddiau yn Gymraeg a Saesneg.
- 2.15 Byddwn yn gofyn am ddewis iaith pwrcaswyr ar gyfer hyfforddiant mewnol a byddwn yn ceisio cael hyfforddwr all gyflwyno yn yr iaith a ddymunir.

3. Datblygiad Polisi, Partneriaethau a Phrosiectau

- 3.1 Byddwn yn sicrhau bod yr holl brosiectau a phartneriaethau a sefydlir gan Anabledd Dysgu Cymru yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg i gynnal y cynllun hwn a pharhau i hyrwyddo cydraddoldeb.
- 3.2 Wrth adolygu ein polisiâu a chyflwyno polisiâu newydd byddwn yn sicrhau eu bod yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg i gynnal y cynllun hwn a pharhau i hyrwyddo cydraddoldeb.
- 3.3 Bydd pob polisi, partneriaeth a phrosiect newydd yn cefnogi'r cynllun hwn ac ni fyddant yn ei danseilio.
- 3.4 Byddwn yn sicrhau bod yr holl staff sydd yn ymwneud â datblygu polisiâu, prosiectau a phartneriaethau yn ymwybodol o rwymedigaethau'r cynllun hwn ac yn eu cymryd i ystyriaeth.
- 3.5 Os oes angen, byddwn yn ymgynghori gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg mewn perthynas ag unrhyw gynigion allai effeithio ar y Cynllun Iaith. Ni chaiff y Cynllun Iaith hwn ei newid heb gytundeb Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'n Pwyllgor Rheoli.
- 3.6 Byddwn yn annog ein haelodau ac unigolion a chyrrff eraill sydd yn gweithio gyda neu ar gyfer pobl ag anableddau dysgu i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg a Saesneg.

4. Rheolaeth a Gweinyddiaeth

Hyfforddiant a chefnogaeth Gymraeg

- 4.1 Bydd arolygwyr yn asesu anghenion hyfforddi iaith Gymraeg gyda'r staff fel rhan o'r broses arolygu ac Adolygiadau Blynyddol.
- 4.2 Byddwn yn nodi cyrsiau a gynigir gan gyrff allanol a byddwn yn hyrwyddo'r cyrsiau hyn yn fewnol. Os yw staff yn dymuno mynychu cwrs Gymraeg ystyrir pob achos yn ôl ei deilyngdod, yn dibynnu ar berthnasedd hyfforddiant o'r fat hi swydd yr unigolyn a'u Cynllun Datblygu Personol.
- 4.3 Byddwn yn darparu rhestr o gyfieithwyr cymeradwy i'r staff yn cynnwys y gwasanaeth cyfieithu am ddim, Llinell Gyswilt.
- 4.4 Byddwn yn darparu banc o ymadroddion a brawddegau defnyddiol i staff yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Hyfforddiant ar Ymwybyddiaeth Iaith

- 4.5 Darperir Hyfforddiant ar Ymwybyddiaeth Iaith i holl aelodau'r staff, aelodau'r Bwrdd a gwirfoddolwyr. Gwneir hyn naill ai trwy ddefnyddio'r DVD Ymwybyddiaeth Iaith a'r pecyn a ddarperir am ddim gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg neu trwy seminarau a ddarperir gan Estyn Llaw.

Technoleg

- 4.6 Byddwn yn sicrhau bod yr holl feddalwedd a brynir gan y corff yn gydnaws â chyflwyniad Cynllun yr Iaith Gymraeg. Bydd pecyn gwirio sillafu cyfrifiadur Gymraeg ar gael i aelodau perthnasol o'r staff. Bydd y fersiynau Gymraeg o Windows, Office ac unrhyw feddalwedd dwyieithog perthnasol arall ar gael i'r staff.

Monitro

- 4.7 Byddwn yn monitro gweithrediad y polisi hwn yn flynyddol ac yn adrodd i'n Pwyllgor Rheoli ac i Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Defnyddir y patrymlun adrodd a ddarparwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg i'r diben hwn.
- 4.8 Byddwn yn cynnal Archwiliad Sgiliau Cymraeg y staff yn flynyddol.
- 4.9 Ar y cyd gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg caiff y cynllun hwn ei adolygu a'i addasu yng ngoleuni hyn ar ôl cyfnod o dair blynedd.

Recriwtio

- 4.10 Wrth i swyddi staff a phwyllgor rheoli ddod yn wag byddant yn cael dynodiad iaith a ddefnyddir wrth recriwtio. Mae pob swydd newydd a gyflwynir hefyd yn cael dynodiad iaith.
- 4.11 Mae'r dynodiad iaith yn ystyried i ba raddau y mae angen cyfathrebu yn Gymraeg wrth gyflawni dyletswyddau'r swydd. Mewn rhai achosion gall y dynodiad iaith adlewyrchu gofynion y cyllidwyr neu ran ddeiliaid. Defnyddir y dynodiadau canlynol:
 - **Cymraeg yn hanfodol** dim ond ymgeiswyr sydd yn diffinio'u hunain yn rhugl yn y Gymraeg y gellir eu rhoi ar y rhestr fer a'u cyfweld. Ar gyfer swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol cynhelir prawf ysgrifenedig a llafar byr fel rhan o'r cyfweiliad.
 - **Cymraeg yn fanteisiol** lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn cael yr un flaenoriaeth yn y broses gyfweld â gofynion hanfodol eraill ond nid yw'n rhwystro siaradwyr di Gymraeg rhag cael eu rhoi ar y rhestr fer a'u cyfweld. Gall cytundeb i dderbyn hyfforddiant Cymraeg priodol fod yn rhan o'r cynnig swydd.
 - **Cymraeg yn ddymunol** ystyrir y gallu i siarad Cymraeg dim ond ar ôl i ffactorau perthnasol eraill gael eu hystyried ac fe'i defnyddir pan fo ychydig iawn o wahaniaeth yn y ffactorau eraill rhwng ymgeiswyr.

- 4.12 Byddwn yn defnyddio hysbysebion dwyieithog am staff ac wrth hysbysebu am aelodau o'r Pwyllgor Rheoli.
- 4.13 Ar gyfer swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol byddwn yn hysbysebu yn Gymraeg yn unig gyda disgrifiad cryno yn Saesneg.
- 4.14 Gofynnir i'r holl ymgeiswyr potensial am swyddi nodi ym mha iaith yr hoffent dderbyn pecyn cais, Cymraeg neu Saesneg, ac fe ddarperir y deunyddiau yn yr iaith briodol.
- 4.15 Byddwn yn ystyried ac yn defnyddio lle mae'n briodol, ddulliau eraill o hysbysebu swyddi – er enghraifft mewn Papurau Bro a Golwg.
- 4.16 Mae'r holl ffurflenni a gwybodaeth recriwtio ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
- 4.17 Ym mhob achos lle yr ystyrir y Gymraeg yn hanfodol bydd o leiaf un siaradwr Cymraeg ar y panel cyfweld a bydd yn gofyn un cwestiwn o leiaf yn Gymraeg i'r ymgeisydd.
- 4.18 Byddwn yn gwneud y Gymraeg yn hanfodol yn y fanyleb person ar gyfer un gweithiwr gweinyddol pan ddaw'r swydd berthnasol nesaf yn wag.
- 4.19 Bydd gennym un person o leiaf ar y Pwyllgor Rheoli sydd yn siarad Cymraeg

Cyhoeddi ac Adborth

- 4.20 Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg ar gael i'n holl aelodau ac i'r cyhoedd.
- 4.21 Bydd crynodeb hawdd i'w ddarllen o'r cynllun ar gael ar ein gwefan, lle yr anogir awgrymiadau i wella'r cynllun.
- 4.22 Bydd ein Cydlynnydd Adnoddau Dynol yn delio gyda chwynion am fethiannau i ddiwallu gofynion y cynllun yn unol â'n gweithdrefn gwynion safonol.

Amserlen Gweithredu 2010 - 2013

Mae'r amserlen hon yn nodi'r dyddiau targed ar gyfer cyrraedd y safonau a nodir yn y cynllun hwn.

Mae pob pwynt yn y cynllun yn cael ei drafod yn unigol a rhoddir sgôr o 1-4 i bodi ein perfformiad:

- 1 = Heb ei ddiwallu
- 2 = Wedi'i ddiwallu'n rhannol
- 3 = Y rhan fwyaf wedi'i ddiwallu
- 4 = Wedi'i ddiwallu'n llawn

Delwedd Gyhoeddus			Dyddiad Targed	Arwa in	Sgôr
1.1	Logo	Ymarfer cyfredol	Awst 2010	Cyf	
1.2	Brig llythyrau etc	Stoc cyfredol nad yw'n cydymffurfio i'w ddefnyddio tan y byddant yn cael eu hail argraffu neu Medi 2011, pa un bynnag a ddaw gyntaf	Medi 2011	CA	
1.3	Testun arwyddion	Ymarfer cyfredol	Awst 2010	CA RhDH	
1.4	Arwyddion ar wahân	Ymarfer cyfredol	Awst 2010	CA RhDH	
1.5	Arwyddion dros dro	Ymarfer cyfredol	Awst 2010	CA RhDH TG	
1.6	Deunyddiau cyhoeddedig	Mae Llais eisoes yn ddwyieithog. Mae Llais Update yn Saesneg yn unig. O ran deunyddiau eraill mae rhai ar gael yn ddwyieithog nawr, ac eraill yn Saesneg yn	Llais Update Ebrill 2011. Popeth arall 2010.	CA RhDH TG	

		unig.			
1.7	Llais / Llais update	I'w ddefnyddio fel opsiwn yn ôl dewis y tîm gwybodaeth	N/A	TG	
1.8	Cyhoeddiad uniaith ar y pryd	I'w weithredu ar unwaith ar wahân i Llais Update.	Llais Update Ebrill 2011. Popeth arall Awst 2010.	CA	
1.9	Cyhoeddiad uniaith ar y pryd	I'w weithredu ar unwaith	Awst 2010	RhDH	
1.10	Cyhoeddiad uniaith ar y pryd	I'w weithredu ar unwaith	Awst 2010	TG	
1.11	Yr un pris am Gymraeg a Saesneg	I'w weithredu ar unwaith	Awst 2010	CA	
1.12	Canllawiau dylunio dwyieithog	I'w weithredu ar unwaith	Awst 2010	RhDH	
1.13	Gwefan	Ymarfer cyfredol er efallai heb ei ddiweddarau 100%. Rhaid gwirio a gwneud pob tudalen yn ddwyieithog	Ebrill 2011	TG	
1.14	Addasu gwefan ar yr un pryd	Ymarfer cyfredol	Awst 2010	TG	
1.15	Addasu'r wefan heb fod ar yr un pryd	Ymarfer cyfredol	Awst 2010	TG	

2. Cyswllt Uniongyrchol			Dyddiad Targed	Arwa in	Sgôr
2.1	Ateb y ffôn	Hyfforddi a chefnogi staff.	Awst 2010	RhDH	
2.2	Peiriant ateb	Ymarfer cyfredol	Awst 2010	GS	

2.3	Galwyr Cymraeg	Anelu at ddiwallu hyn trwy recriwtio a hyfforddi staff.	Mawrth 2012	AD	
2.4	Galwyr Cymraeg.	Nid yw'r dewis llawn ar gael i alwyr oherwydd nad oes gennym staff Cymraeg eu hiaith ar hyn o bryd	March 2012	AD	
2.5	Cefnogaeth i staff	I'w ddiwallu trwy hyfforddiant mewnol, hyfforddiant ymwybyddiaeth staff a chardiau anogaeth ger pob ffôn.	Awst 2010	RhDH	
2.6	Ateb llythyrau ac e-byst	I'w weithredu ar unwaith.	Awst 2010		
2.7	e-byst allan o oriau swyddfa	I'w weithredu ar unwaith.	Awst 2010	RhDH	
2.8	Dewis iaith cynadleddwyr.	I'w weithredu wrth ddylunio ac archebu ffurflenni archebu newydd. Defnyddio stoc sydd eisoes yn bodoli i ddechrau.	Awst 2010	RhDH	
2.9	Cyfieithu.	I'w weithredu mewn digwyddiadau y defnyddiwyd y ffurflenni archebu priodol ar eu cyfer	Awst 2010	RhDH	
2.10	Adborth a monitro Cyfle Cyfartal.	I'w weithredu ar unwaith	Awst 2010	RhDH	
2.11	Cynhadledd Flynyddol.	I'w weithredu ar unwaith	Awst 2010	RhDH	
2.12	Cadeiryddion digwyddiadau	I'w weithredu ar unwaith	Awst 2010	RhDH	
2.13	Pecynnau cynadleddwyr.	I'w weithredu ar unwaith	Awst 2010	RhDH	
2.14	Deunyddiau mewn pecynnau cynadleddwyr.	I'w weithredu ar unwaith	Awst 2010	RhDH	
2.15	Hyfforddiant mewnol.	I'w weithredu ar unwaith	Awst 2010	RhDH	

3. Datblygiad Polisi, Partneriaethau a Phrosiectau			Dyddiad Targed	Arwa in	Sgôr
3.1	Prosiectau a phartneriaethau.	I'w weithredu ar unwaith	Awst 2010	CYF	
3.2	Ein polisïau.	I'w weithredu ar unwaith	Awst 2010		
3.3	Prosiectau, partneriaethau a pholisïau.	I'w weithredu ar unwaith	Awst 2010	CYF	
3.4	Ymwybyddiaeth Staff	I'w weithredu ar unwaith	Awst 2010	CYF	
3.5	Ymgynghori a newid.	I'w weithredu ar unwaith	Awst 2010	CYF	
3.6	Annog eraill.	I'w weithredu ar unwaith	Awst 2010	CYF	

4. Rheolaeth a Gweinyddiaeth			Dyddiad Targed	Arwa in	Sgôr
4.1	Asesu anghenion hyfforddi.	I'w weithredu ar unwaith	Awst 2010	CYF	
4.2	Hyfforddiant iaith Gymraeg.	I'w weithredu ar unwaith	Awst 2010	CYF	
4.3	Cyfieithwyr	I'w weithredu ar unwaith	Awst 2010		
4.4	Geiriau ac ymadroddion defnyddiol.	I'w weithredu ar unwaith	Awst 2010		
4.5	Hyfforddiant ymwybyddiaeth	I'w weithredu ar unwaith	Awst 2010	RhDH	
4.6	Meddalwedd	I'w weithredu ar unwaith	Awst 2010	CA	
4.7	Monitro'r	I'w weithredu ar unwaith	Awst 2011	CYF	

	cynllun.				
4.8	Archwiliad staff	Archwiliad sgiliau iaith cyntaf wedi'i gwblhau ym mis Ionawr 2010, yr un nesaf flwyddyn ar ôl lansio'r Cynllun	Awst 2011	RhDH	
4.9	Adolygu'r cynllun.	Adolygu'r cynllun mewn 3 blynedd.	Awst 2013	RhDH	
4.10	Dynodiad iaith swyddi	I'w weithredu ar unwaith	Awst 2010	AD	
4.11	Diffiniad o ddynodiad iaith swyddi.	I'w weithredu ar unwaith	Awst 2010	AD	
4.12	Hysbysebu swyddi.	I'w weithredu ar unwaith	Awst 2010	AD	
4.13	Swyddi Cymraeg yn hanfodol	I'w weithredu ar unwaith	Awst 2010	AD	
4.14	Dewis iaith mewn cais am swydd.	I'w weithredu ar unwaith	Awst 2010		
4.15	Hysbysebu swyddi.	I'w weithredu ar unwaith	Awst 2010	AD	
4.16	Ffurflenni recriwtio	I'w weithredu ar unwaith	Awst 2010	AD	
4.17	Cyfweliadau Cymraeg.	I'w weithredu ar unwaith	Awst 2010	AD	
4.18	Aelod o'r staff sydd yn siarad Cymraeg.	I'w weithredu ar unwaith	Awst 2010	AD	
4.19	Aelod o'r Pwyllgor Rheoli sydd yn siarad Cymraeg.	Caiff hyn ei gyflawni trwy newid y fanyleb person pan ddaw swydd nesaf berthnasol ar gyfer recriwtio ar gael.	Awst 2010	AD	

4.20	Cyhoeddi'r Cynllun.	I'w weithredu ar unwaith	Awst 2010	TG	
4.21	Fersiwn hawdd i'w ddarllen.	I'w gyhoeddi ar ein gwefan a hysbysu pob aelod.	Awst 2010	TG	
4.22	Cwynion	I'w weithredu ar unwaith	Awst 2010	TG	

CYF - Cyfarwyddwr

AD – Cydlynnydd Adnoddau Dynol

TG – Tîm Gwybodaeth

GS – Gweinyddydd Swyddfa

CA – Cydlynnydd Adnoddau

RhDH – Rheolwr Digwyddiadau a Hyfforddi